O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1942 (Cy. 292)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol y Parc, Y Fenni, Sir Fynwy) (Cau Troetffordd Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym* | *16 Tachwedd 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Rhaglan - Llanymddyfri (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cau'r darn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno neu'n agos ato.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Tachwedd 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol y Parc, Y Fenni, Sir Fynwy) (Cau Troetffordd Dros Dro) 2015.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 01:00 o'r gloch ar 16 Tachwedd 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r droetffordd ar ochr ddeheuol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol y Parc, Y Fenni yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 23 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Hereford Road i gyfeiriad y gorllewin hyd at bwynt 7 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Priory Lane.